CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD MEHEFIN 17, 2025

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Brithdir**
**Nos Fawrth, Mehefin 17, 2025 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

**Presennol** Gerallt Griffith (Cadeirydd) Meurig Ashton, Karen Goswell, Peredur Jenkins, Rhun Prys Jones, Robin Jones. Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd.** Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:** Emlyn Roberts, Llion Williams.

**3. Datgan diddordeb.**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 20, 2025**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 20, 2025**

Eitem 7.dd. Llythyr (21/5/2025) oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru yn gwahodd 3 aelod o'r Cyngor (un o bob Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain) i gyfarfod yng Ngorsaf Heddlu Dolgellau am 11.00yb ar ddydd Llun, 2ail Mehefin. Bydd yr aelodau yn cyfarfod Tim Plismona Chymunedol leol i drafod cynlluniau'r Heddlu am yr haf. Maent angen gwybod pwy fydd yn bresennol cyn Mai 28.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Yn bresennol yn cyfarfod yr Heddlu oedd Karen Goswell a Henry. Yn bresennol hefyd oedd cynrychiolwyr o Gyngor Tref Dolgellau, a chynrychiolwyr o gynghorau cymuned Arthog, Dinas Mawddwy a Ganllwyd. Yn y cyfarfod cafwyd wybod y troseddau sy'n digwydd yn yr ardal a phwy i gysylltu gyda materion ymwneud â thorri'r gyfraith, a'r paratoadau sy'n cael ei wneud i blismona digwyddiadau fel sioeau. Nid yw swyddfa Dolgellau ar agor i'r cyhoedd daro mewn i weld Swyddog.

Eitem 7.c. Gyda gwaith yn cael ei wneud ar Neuadd Llanfachreth bydd cyfarfod mis Gorffennaf yn cael ei gynnal yn Neuadd Brithdir.

Penderfynwyd gwnweud ymoliadau â Neuadd Rhydygorlan i gael y cyfarfod yn fanno.

Eitem 7.g. Llythyr (11/6/2025) i'r aelodau gan Rhun Jones yn canmol y gwaith arwisgo cafodd ei wneud yn Brithdir. Cafodd y gwaith tacluso'r ardal, lledu'r ffordd a dod a chwteri i'r golwg.

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (27/5/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgáu cofnodion Cyfarfod Pwyllgor ardal Meirionnydd cynhalwyd ar Mai 14, 2025.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (27/5/2025) oddi wrth Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn amgáu gwybodaeth ar gronfa 'Gwynedd Ni' ar gyfer cynghorau tref a chymuned. Mae angen cyflwyno cynllunia i'r gronfa cyn Gorffennaf 31, 2025.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd gwneud cais am fainc yn Top Torrent, a hysbysfwrdd yn Rhydymain a Brithdir. Mae Robin Jones am wneud ymoliadau am brisiau i'r tair eitem. Penderfynwyd hefyd i wneud ymoliadau â Mr Huw Antur Edwards (huwanturedwards@gwynedd.llyw.cymru) am arweiniad i baratoi cais am y grant.

c. Llythyr (3/6/2025) oddi wrth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gwahodd eu staff a'r cyhoedd (yn cynwys cynghorwyr cynghorau cymuned) i roi barn ar y Cynllun Gwasanaeth Clinigol. Mae hyn oherwydd y newidiadau sydd angen ei wneud i wella gwasanaeth iechyd yr ardal. Bydd digwyddiadau galw heibio i'r choedd. Yn ychwanegol, bydd cyfarfodydd ar-lein ar gael i gynghorwyr Cynghorau Tref a Cymuned ar 12/6/2025 am 6:30yh; maent angen gwybod pwy fydd yn mynychu'r cyfarfod cyn 10/6/2025. Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 29/5/2025.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (4/6/2025) oddi wrth Comisionydd Heddlu a Throseddau yn rhoi gwybodaeth ar adolygu maent ei wneud gydag awdurdodau lleol ar sut mae CCC (Camerau Cylch Caeedig) yn cael ei ddefnyddio er mwyn trechu troseddau.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (9/6/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod i yn anog cynrychiolwyr cynghorau cymuned a thref i fynychu eu cyfarfodydd Pwyllgorau Ardal. Cynrychiolwyr ni yw Gerallt Griffith a Robin Jones a rhoddwyd gwybod i Un Llais Cymru.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (11/6/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyrsiau hyfforddiant Mehefin - Medi.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

e. Llythyr (13/6/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gronfa 'Arloesi i Dyfu' lansiwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i gefnogi projectau sy'n delio gyda materion treoseddau, chamddefnyddio cyffuriau, alcohol ac ymosod.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (28/5/2025) oddi wrth y Parc yn rhoi gwybod am ymgynghori cyhoeddus ar gyfer Cynllun Gweithredu Adfer Natur Eryri. Mae gwahoddiad i roi syniadau i gynyddu byd natur yn Plas Tal y Bwlch rhwng 10:00 a 4:00yp ar 25/6/2025.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Cais cynllunio Cais Rhif: NP5/54/472A. Ystafell Wydr. Ty'n-y-Coed, Bontnewydd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais am y rheswm bydd yr ystafell wydr yn gwella eiddo'r tŷ.

**8. Materion Ariannol**

a. Costau'r Clerc am y cyfnod Ebrill 1, 2023 – Mawrth 31, 2024:
Papur - £90.37
Inc - £962.68
Stampiau post – £56.89
Cyfanswm- £1,109.94 (Llynedd roedd y costau yn £801.59).
Penderfynwyd talu'r costau.

c. Llythyr (27/5/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgáu gwybodaeth i sicrhau bod cyfrifon y Cyngor yn gywir.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/5/2025: £1,192.94.
Balans yn y banc ar 29/5/2025: £11,096.66 (yn cynnwys hanner y praesept £6,000 ac ad-daliad £490.30 oddi wrth Cyngor Gwynedd am glirio llwybrau 2024-2025).

**9. Archwilio**

a. Anfonwyd (24/5/2025) dogfennau'r Cyngor i Archwilio Cymru.

b. Rhoddwyd yr Hysbysiad Archwilio ar ein gwefan ac ar ein hysbysfyrddau ar 12/6/2023. Mae'n rhoi cyfle i'r cyhoedd archwilio cyfrifon a dogfennau y Cyngor ac iddynt roi unrhyw wrthwynebiad i'r gwaith i'r Archwilydd Cyffredinol.

**10. Materion yr Aelodau**

a. Anfonwyd llythyr (10/6/2025) i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod iddynt roi sylw i:

1. Mae cwter wrth giat terfyn Doluwchadda ar ddechrau ffordd Bwlch Goriwaered, Llanfachreth wedi cau. Rhoddwyd cais i'r Adran i roi sylw i'r mater ar 5/11/2024 a doedd dim wedi cael ei wneud. Rhoddwyd lluniau yn dangos lleoliad y gwter.

Llythyr ateb (12/62025) yn rhoi gwybod mae'r gwaith mewn llaw. Cafwyd wybod bod y gwaith wedi cael ei wneud.

2. Mae angen tocio coedyn sydd gyferbyn a mynediad y maes parcio wrth yr ysgol yn Llanfachreth. Mae cangen coeden yn isel.

**11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Derbyniodd (30/5/2025) yr aelodau copi o Taliadau y Cynllun Ffermio Bro oddi wrth Rhys Owen.

b. Anfonwyd llythyr (10/6/2025) i Adrian yn holi oes posibilrwydd cael bin halen yn ardal Bryncoedifor.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Derbyniwyd (10/6/2025) adroddiad Arolwg Anghenion Tai Llanfachreth, Brithdir, a Rhydymain.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (11/6/2025) oddi wrth Elin Wiliam, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am grant sydd ar gael i'r cynghorau cymuned.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (10/6/2025) oddi wrth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC, Cyngor Gwynedd yn amgâu pamffled sy'n egluro'r drefn gwaith arwisgo.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Neuadd Bontddu Hall wedi cael caniatâd Cynllunio. Roeddwn wedi gwrthwynebu ond roedd pob Aelod o blaid. Roedd trafodaeth ar y risg llygredd golau ar yr awyr dywyll. Mae o 18.5% o dai ardal Bontddu yn tai gwyliau ac ail gartrefi. Rhoddwyd amodau ar y datblygiad a rhoddwyd gerddi i'r tai fforddiadwy ac amodau fod y tai ar gael ar gyfer y farchnad rhent lleol, sef ar gyfer trigolion y ward yn gyntaf, sef amodau tai lleol.

e. Ffyrdd - arian Newydd (2.1 m) wedi dod i Feirionnydd a bydd arwisgo yn digwydd yn y Ward yn y dyfodol agos iawn yn cychwyn Mis yma.

f. Ailgylchu wedi bod yn drafferthus yn Llanelltyd a Rhydymain (wledig) ers Ionawr 2025. Cafwyd ymweliad safle gan brif swyddog ail gylchu Gwynedd a datrysiad wedi bod.
Mae y Cyngor yn llwyddo i ailgylchu 65% o ysbwriel y Sir ond yn methu y targed o 70% ac yn mater yw ailgylchu anaddas yn y bin gwyrdd sef 57% o'r defnydd yn medru cael ei ailgylchu.

ff. Arolwg tai wedi ei wneud yn ardal Brithdir, LLanfachreth a Rhydymain gan fod datblygiad Llanfachreth yn mynd yn ei flaen a pensaer wedi ei benodi.

g. Grantiau Gwynedd a grantiau Cyngor Cymuned – wybodaeth wedi ei roi.

h. Ffermio Bro yn gynllun Newydd yn Parc Eryri

i. Tan y Bwlch ddim ar y farchnad bellach a cais grant yn cael ei wneud ar gyfer diogelu dyfodol yr eiddo.

j. Erthygl 4 yn cael ei brofi mewn achos llys ar hyn o bryd gan berchnogion eiddo ail gartrefi yng Ngwynedd.

l. Fflecsi Llanelltyd a datblygiadau yn y Ward – datblygiad wedi ei wrthod gan gwmni Bws Lloyd's er iddo gael ei gytuno gan y Cyngor Sir. Mater wedi ei drafod yn Pwyllgor Craffu Cymunedau mis yma.

m. Mân-ddaliadau – buddsoddiad o 2.1 M wedi ei sicrhau o Lywodraeth Cymru. Amserlen adnewyddu eiddo heb ei gadarnhau eto.

n. Broadband ardal Rhydymain a Bontnewydd– Cyngor wedi ei gael gan Uchelgais Gogledd Cymru ar sut i symud ymlaen.

o. Ysbwriel meddygol wedi ei adael yn Rhydymain wedi ei glirio gan griw Tim tacluso Gwynedd.
Gwastraff diwydiannol /adeiladu yn broblem yn y ward ers rhai misoedd.

Llofnod: Dyddiad: